IONAWR | JANUARY 2025 RHIFYN | ISSUE 4

# TÎM CYMORTH CYFLOGADWYEDD

# EMPLOYABILITY SUPPORT TEAM

Cylchlythyr | Newsletter





YN Y RHIFYN HWN/IN THIS ISSUE

**AMDANON NI**
**ABOUT US**

**CWRDD Â'R TÎM**
**MEET THE TEAM**

**HANES EIN LLWYDDIANT**
**SUCCESS STORY**

**GWEITHDAI**
**WORKSHOPS**

**YSTADEGAU**
**STATISTICS**

**SUT I GYSYLLTU Â NI**
**HOW TO CONTACT US**

## AMDANOM NI | ABOUT US

Mae cymorth ar gael i oedolion sy'n byw yng Ngheredigion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ond mae ein prif ffocws ar gefnogi'r rhai sydd mwyaf wrth risg o fod dan anfantais.

Mae mentoriaid yn darparu cymorth un-i-un i gyfranogwyr wrth ysgrifennu CV, cynnal ffug gyfweliadau, uwchsgilio ac ariannu amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan gynnwys cymorth i ddechrau eu busnes eu hunain. Mae'r tîm yn edrych ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwn ar gyfer y 12 mis nesaf i helpu trigolion Ceredigion i ddod o hyd i waith a lleihau tlodi.

Gyda chymorth y prosiect, mae cyfranogwyr wedi dechrau cyflogaeth ac mae eraill wedi mynd i leoliadau gwirfoddoli, cyfleoedd gwaith â thâl neu hyfforddiant. Mae cyrsiau hyfforddi yn amrywio o gymwysterau cymorth cyntaf, manwerthu neu ofal iechyd, cardiau diogelwch adeiladu a hyd yn oed hyfforddiant gyrwyr HGV.

---

Support is available for adults living in Ceredigion who are not in employment, education, or training, however the primary focus should be to support those who are most at risk of disadvantage.

Mentors provide 1:1 support for participants with writing CV's, undertaking mock interviews, up-skilling and funding to reduce a wide variety of barriers to employment. The team are looking forward to building on this success for the next 12 months to help residents of Ceredigion find employment and to reduce poverty.

With the support of the project, participants have entered employment and others have entered volunteering placements, paid work opportunities or completed training. Training courses range from First Aid qualifications, hospitality, retail, healthcare, and construction safety cards.

# CWRDD Â'R TÎM | MEET THE TEAM



## Rhian Owen

Rheolwr Tîm
Team Manager



## Emma Daniel

Cydlynydd
Co-ordinator



## Tiffany Davies

Swyddog Cefnogi-Cyflogadwyedd, Ymgysylltu a Dilyniant
Support Officer-Employability, Engagement and Progression



## Catrin Davies

Swyddog Cefnogi-Cyswllt Cyflogwyr
Support Officer-Employer Liaison



## Catherine Crees

Mentor Cymorth Cyflogadwyedd (cyfnod mamolaeth)
Employability Support Mentor (maternity cover)



## Delor Evans

Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Misha Homayoun-Fekri

Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor




## Jasmin Bottone

Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Rachel Tuck

Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor




## Hanes Lwyddiant
## Success Story

**Rhaglen cyflogaeth Ceredigion wedi helpu Calvin i gael swydd**

Mae Calvin, sy'n 26 oed ac o Aberystwyth, wedi derbyn cymorth i gael gwaith drwy'r rhaglen Cyflogaeth â Chymorth Lleol (CChLl). Symudodd Calvin i'r ardal o Lundain yn 2022 i ofalu am ffrind, ac mae wedi bod yn ddi-waith ers iddo symud. Ym mis Tachwedd 2023 cafodd ei gyfeirio i Dîm Cymorth Cyflogadwyedd Ceredigion a'i gyflwyno i'w fentor Misha.

Pan ymunodd Calvin â rhaglen CChLl, roedd yn amlwg fod ganddo'r gallu i wneud cais am swyddi'n annibynnol ond roedd yn gwerthfawrogi'r cymorth wyneb i wyneb. Derbyniodd cymorth ar sut i wella ei ffurflen gais gan sicrhau bod ei CV yn rhagori, ysgrifennu llythyron yn cyflwyno ei hunan, sgiliau cyfweliad a cyngor a chymorth mewn cyfarfodydd rheolaidd â'i fentor cyflogaeth Misha.

Awgrymodd Misha y dylai fynychu cwrs uwchsgilio a oedd yn cael ei gynnig gan y Tîm Cymorth Cyflogaeth tra'n chwilio am swydd ar yr un pryd. Llwyddodd Calvin i gwblhau cwrs 'Lletygarwch' mewn partneriaeth â busnesau lleol i'w ychwanegu i'w CV.

Roedd Calvin wedi parhau i weithio gyda Misha tra'n chwilio am swydd a gyda'i chymorth hi, llwyddodd i ddod o hyd i swydd a chyflogwr delfrydol. Mae'r swydd llawn amser wedi rhoi sicrwydd ariannol a threfn sydd yn anarferol i Calvin, mae hyn hefyd wedi galluogi Calvin i symud i fflat a rennir, gyda'r bwriad o arbed arian er mwyn cael fflat ei hun yn y dyfodol.

Dywedodd Calvin: "Mae'r prosiect yma nid yn unig wedi fy helpu i sicrhau cyflogaeth mewn gweithle gwych, ond mae hefyd wedi fy helpu i dderbyn a deall fy Awtistiaeth. Heb y cymorth ni fyddwn wedi cael cyfle i gwrdd â phobl arall fel fi. Roedd y cyfleoedd yn amrywio o'r cwrs lletygarwch i'r grŵp Awtistiaeth newydd yn Aberystwyth. Roedd fy mentor gwych Misha, wedi fy helpu ar hyd y 'llwybr tywyll' yma, gan fwrw goleuni ar fy sefyllfa a rhoi cymorth i mi sicrhau cyflogaeth a dealltwriaeth well o fy Awtistiaeth. Pe bawn yn cael y cyfle i droi'r cloc yn ôl a dewis llwybr gwahanol, byddwn yn dewis y llwybr yma eto. Mae Misha a'r prosiect wedi gwneud fy meddwl a fy nyfodol ychydig yn fwy clir."

Dywedodd cyflogwr Calvin sef Darren o Timpson: "Mae Calvin yn aelod gwych o'r tîm, ac ni allaf diolch digon i Misha am gynorthwyo Calvin ac am gynnig arweiniad i ni am y ffordd orau o gynorthwyo Calvin yn ei gyflogaeth. Mae Calvin yn ffynnu ac mae'n aelod gwych o'r tîm."

Dywedodd John Galbraith o'r Ganolfan Byd Gwaith: ''Dyma enghraifft arall eto o CChLl a Chyngor Sir Ceredigion yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn cefnogi pobl i gael gwaith. Oni bai fod Misha wedi gweld yr hysbyseb am y swydd wag a anfonwyd gan yr anogwyr gwaith a thrydydd parti, ni fyddai wedi gwybod amdano, ac efallai y byddai Calvin wedi colli'r cyfle.''

Dywedodd y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet Ysgolion a Dysgu Gydol Oes: "Mae'r Tîm Cyflogaeth â Chymorth Lleol yn cyflawni gwaith pwysig iawn sy'n galluogi cyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr Ceredigion. Dwi'n falch o weld cyd-weithrediad arbennig rhwng y gwasanaeth, Canolfan Byd Gwaith, a'r cyflogwyr sydd wedi galluogi cyfle hwn i Calvin. Llongyfarchiadau Calvin!"

Yn 2024, mae'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd wedi cefnogi dros 300 o drigolion di-waith Ceredigion i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth, gyda 40 o'r rhain yn cael eu cefnogi fel rhan o'r Cynllun Cyflogaeth â Chymorth Lleol (CChLl).

Darparir cymorth yn lleol gan Dîm Cymorth Cyflogadwyedd Cyngor Sir Ceredigion trwy gyfrwng y cynllun Cyflogaeth â Chymorth Lleol. Ariannir y cynllun gan yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn partneriaeth â Chynghorau Ceredigion, Sir Benfro, a Sir Gâr. Mae'r prosiect yn cynnig cymorth i bobl 16 oed a throsodd sydd ag anabledd dysgu, neu awtistiaeth, i'w cynorthwyo i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.

I gael gwybod mwy am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yng Ngheredigion, anfonwch e-bost at TCC-EST@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch 01970 633422. Gallwch gael gwybod y newyddion diweddaraf trwy ddilyn ein sianelau cyfryngau cymdeithasol: Cymorth Gwaith Ceredigion Work Support ar Facebook a @CymorthGwaithCeredWorkSupport ar Instagram.

**Ceredigion employment project helps to land Calvin into life changing job**

Calvin, a 26-year-old from Aberystwyth, has received support to gain employment through the Local Supported Employment (LSE) programme. Calvin relocated to the area in 2022 from London to care for a friend and had been unemployed since the move. In November 2023 he was referred to the Employability Support Team and introduced to his mentor Misha.

When Calvin joined the LSE programme it was apparent that he was able to independently apply for jobs, but really appreciated the additional 1:1 support. He received support to enhance his applications when it came to making his CV stand out, writing cover letters, interview skills and tips and support during his consistent meetings with Misha, his employment mentor.

Misha recommended that he attended an upskilling course delivered by the Employability Support Team whilst job searching. Calvin was able to successfully complete a 'Hospitality' course in partnership with local businesses which went straight onto his CV.

Calvin continued to work with Misha on his job seeking journey and with her support has found the right job with the perfect employer. The full time job has given Calvin finansial security and a routine which has also helped him move into a shared flat, with the intention to save money to move into his own flat in the future.

Calvin said: "This project has not only helped me gain employment at an amazing workplace, it has also helped me come to terms and understanding of my Autism. Without the support I wouldn't have had the opportunities to meet others like me. Thie opportunities ranged from the hospitality course to a newly opened Autism group in Aberystwyth. My wonderful mentor, Misha, helped me through this 'dark path' and had shone the light while helping me not only with gaining employment but in getting a better understanding of my Autism. If I had the opportunity to turn back time and pick a different path, I would still choose this one. Misha and this project have made my mind and my future just that bit clearer."

Calvin's employer Darren from Timpson said: "Calvin is a fantastic team member, and we can't thank Misha enough for supporting Calvin and us by providing us with guidance to best support Calvin in his employment. Calvin is thriving and it's great to have him on the team".

John Galbraith from Job Centre Plus said: "This is yet another example of LSE and Ceredigion County Council successfully working collaboratively with Job Centre Plus in supporting people into work. Had Misha not seen the advert for the vacancy sent out by the work coaches and third parties, she would not have known about it and Calvin might have missed out of this opportunity".

Ceredigion Councillor Wyn Thomas, Cabinet Member for Schools and Through Age Learning said: "The Local Supported Employment team does important work which gives emplyment opportunities to Ceredigion residents. I'm proud to see great co-operation between the service, Job Centre Plus, and the emplyer which have enabled Calvin to get this opportunity. Congratulations Calvin!".

In 2024, the Employability Support Team has supported over 300 unemployed residents of Ceredigion to seek employment opportunities, with 40 of these being supported as part of the Local Supported Employment Scheme (LSE).

Support is provided locally by Ceredigion County Council's Employability Support Team through the Local Supported Employment scheme. The scheme is funded by the Department for Work and Pensions in partnership with Ceredigion, Pembrokeshire, and Carmarthenshire County Councils. The project provides support for people aged 16 and up who have a learning disability, or autism to support them in securing sustainable employment.

To find out more about the services we provide in Ceredigion, email TCC-EST@ceredigion.gov.uk or call 01970 633422. You can also keep up to date by following our social media channels: Cymorth Gwaith Ceredigion Work Support on Facebook and @CymorthGwaithCeredWorkSupport on Instagram.

# Gweithdai | Workshops

**Mae'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd wedi parhau i gynnal y gweithdai yn dilyn peilot llwyddiannus y gweithdy Cyflwyniad i letygarwch ym mis Chwefror 2024.**

**The Employability Support Team have continued to run the workshops following the successful pilot of the Introduction to hospitality workshop in February 2024.**

**Tachwedd 2024**

Cyflawnodd cyfranogwyr ar y prosiect Cymunedau am Waith+ rai astudiaethau ar-lein gyda Learn Digital yn uniongyrchol i roi gwybodaeth iddynt yn y maes gweinyddol i'w hychwanegu at eu CV a fydd yn eu cefnogi i wneud cais am rolau o fewn y sector heb fawr o brofiad.

**November 2024**

Participants on the Communities for Work+ project undertook some online studies with Learn Digital direct to provide them with knowledge in the administration field to add to their CV which will support them with applying for roles within the sector with minimal experience.

**Gweithdai i ddod yn 2025!**

**Lles mewn gwaith - Ionawr 2025**

**Dechrau Adeiladu - Ionawr 2025**

**Caffi CV + Sgiliau Gwaith Coed - Ionawr 2025**

**Cyflwyniad i Letygarwch - Chwefror 2025**

**Cyflwyniad i lanhau - Mawrth 2025**

**Upcoming workshops in 2025!**

**Wellbeing into work- January 2025**

**Get into Construction- January 2025**

**CV Cafe + Woodwork skills- January 2025**

**Introduction to Hospitality- February 2025**

**Introduction to Cleaning- March 2025**

# Ystadegau- Hydref-Rhagfyr 2024
# Statistics- October-December 2024

| | |
|---|---|
| Atgyfeiriadau Newydd/ New Referrals: | 71 |
| Cyfranogwyr yn cael eu cefnogi/Overall participants supported: | 105 |
| Gwirfiddoli/Volunteering | 6 |
| Cyfleodd efo Thal/ Paid Work Opportunities | 6 |
| Canlyniadau swyddi/ Job outcomes | 12 |

Peirianneg a Gweithgynhyrchu

## Sectorau a gyrchwyd
## Sectors Entered

- **1** Celfyddydau Creadigol a Dylunio/ Creative Arts and Design
- **1** Gofal Cymdeithasol/ Social Care
- **4** Manwerthu/ Retail
- **1** Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth/ Leisure Sport and Tourism
- **1** Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau a Cyfrifeg / Hospitality, Events Management & Accountancy
- **1** Hyfforddiant ac Addysg Athrawon/ Teacher Training and Education
- **1** Eiddo ac Adeiladu/ Property & Construction
- **1** Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweinyddiaeth/ Public Service and Administration
- **1** Trafnidiaeth a Logisteg/ Transport and Logistics



# Sut i gysylltu â ni
# How to contact us

tcc-est@ceredigion.gov.uk

01970 633422

Cymorth Gwaith Ceredigion
Work Support

@cymorthgwaithceredworksupport